www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

# egroeso

bwletin electronig gan
**Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru**

# Twristiaeth yn cyrraedd y brig gyda Chawr o antur i ymwelwyr

**01745 589020**
www.tpnw.org

▶ tudalen nesaf

# Twristiaeth yn cyrraedd y brig gyda Chawr o antur i ymwelwyr

Mae yna newyddion mawr yn y diwydiant twristiaeth yng Ngogledd Cymru yn sgil ymgyrch sy'n un o fil.

Lansiwyd ymgyrch farchnata anferth yn dathlu cewri'r rhanbarth er mwyn denu ymwelwyr o bell ac agos.

Yn eu plith mae Eglwys Gadeiriol Llanelwy, yr Eglwys Gadeiriol hynafol leiaf ym Mhrydain, a man gorffwys yr Esgob William Morgan, a gyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg.

Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru sydd y tu ôl i'r ymgyrch, sef y corff sy'n gyfrifol am ddatblygiad strategol yr economi ymwelwyr yma.

Mae ei gobeithion yn uchel y bydd yr ymgyrch yn cynhyrchu £1 filiwn o wariant ychwanegol gan dwristiaid – am fuddsoddiad o ddim ond £50,000.

Meddai Dewi Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol y Bartneriaeth: "Y syniad tu ôl i'r ymgyrch yw tynnu sylw at ansawdd yr hyn sydd gennym i'w gynnig o safbwynt twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth.

"Mae gennym lawer iawn o gewri yng Ngogledd Cymru a chredwn eu bod yn werth eu dathlu gyda balchder.

"Maen nhw'n fwy na dim ond cewri llythrennol, er bod gennym un neu ddau o'r rheiny, yn cynnwys Rhita Gawr, a oedd yn gwisgo clogyn wedi'i wneud o farfau'r holl frenhinoedd yr oedd wedi'u trechu a'u lladd.

"Mae yna gewri pensaernïol fel y rhwydwaith o gestyll ar hyd ein harfordir - o'r Fflint i Gonwy, hyd at Fiwmares a Chaernarfon.

"Mae gennym hefyd gewri'r chwyldro diwydiannol sy'n cael eu cynrychioli gan Draphont Ddŵr odidog Telford ym Mhontcysyllte, sy'n debygol o ennill Statws Treftadaeth Byd; Pont Menai wych, heb sôn am ffordd yr A5 a weddnewidiodd drafnidiaeth yn yr ardal.

"Mae yna hefyd drysorau diwylliannol o fri, fel yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn Llanberis a mannau cysegredig fel Ffynnon Gwenffrewi yn Nhreffynnon.

"Mae'r Wyddfa yn un arall o gewri'r ymgyrch a rhaid crybwyll yn arbennig y rheilffordd fynydd fyd-enwog a'r adeilad newydd ar y copa, Hafod Eryri.

"Lle arall sy'n serennu yw pentref Eidalaidd Portmeirion, y rhyfeddod pensaernïol ecsentrig a swynodd y byd yn dilyn darlledu'r clasur o gyfres gwlt, The Prisoner, ar y teledu.

"Cawr arall sy'n un o'r ffefrynnau ac sy'n cael lle amlwg yn yr ymgyrch yw Gerddi Bodnant yn Nyffryn Conwy.

"Mae llawer o bobl yn dod yma oherwydd eu bod yn hoff iawn o bopeth diwylliannol a hanesyddol.

"Hap a damwain sy'n denu ymwelwyr eraill yma a byddant yn mwynhau profiad diwylliannol os ydynt yn digwydd dod ar ei draws, efallai wrth gerdded muriau un o drefi caerog hanesyddol Gogledd Cymru neu ymweld ag un o'n cestyll.

"Ar y dechrau roeddem yn targedu cwmnïau teithio i grwpiau ac rydym wedi datblygu llyfryn a gwefan yn tynnu sylw at wyth profiad 'cwbl angenrheidiol'.

"Y syniad yw bod y rhain yn gallu gweithredu fel man cychwyn fel y gall ymwelwyr grwydro gweddill Gogledd Cymru a dod i ddarganfod ein cewri eraill hefyd.

"Rydym wedi marchnata'r ymgyrch cewri mewn amryw o arddangosfeydd teithio blaenllaw ac mae cwmnïau mawr fel Shearings yn dangos llawer iawn o ddiddordeb.

"Mae'r ymgyrch hefyd yn plethu'n dda iawn gyda'n hymgyrchoedd eraill i gysylltu â mwy o gwmnïau teithio a datblygu cyfleoedd busnes newydd.

"Byddwn yn darparu gwerth ychwanegol i gwmnïau ac ymwelwyr fel ei gilydd trwy ddatblygu digwyddiadau bach, pwrpasol.

"Er enghraifft, gallem gyflogi rhywun i dywys y grwpiau yma ar lwybrau diwylliannol o'r radd flaenaf.

"Yn nes ymlaen yn y flwyddyn, byddwn yn gwneud rhywfaint o hysbysebu a gwaith ymgyrchu uniongyrchol ac yn cynhyrchu mwy o daflenni.

"Trwy ein hymgyrchoedd, credwn y gallwn hyrwyddo Gogledd Cymru fel cyrchfan ddiwylliannol gref.

"Mae delwedd brand Gogledd Cymru'n gryf iawn o ran twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth.

"Cychwyn antur fawr yw'r ymgyrch – ar gyfer ein hymwelwyr yn ogystal â'r bobl sy'n gweithio yn y diwydiant twristiaeth."

**www.tpnw.org**



llun: eyeimagery

*Clocwedd o'r dde uchod: Pentref Eidalaidd Portmeirion; Castell Caernarfon; rheilffordd fyd-enwog yr Wyddfa; Pont Menai.*

***Hawlfraint y Goron (2006) Croeso Cymru©***

tudalen flaenorol ◄